

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PWYLLGOR DEDDFAU

**Y CYNULLIAD CYNTAF: Y PEDWERYDD
ADRODDIAD BLYNYDDOL**

2002 - 2003

Cynnwys	Rhif y dud.
Crynodeb o waith y Pwyllgor Deddfau 2002-2003	12
Dadansoddiad o'r Bedwaredd Flwyddyn	12
Cyfrifoldebau'r Pwyllgor: Rheol Sefydlog 11.5	12
Dosbarthiad y Problemau a Nodwyd gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 11.5 (Siart Bar)	13
Sylwadau	14
Gweithdrefnau Gwneud Deddfwriaeth	14
Dosbarthiad y Gweithdrefnau a Ddefnyddir i wneud Deddfwriaeth (Siart Cylch)	15
Materion Gweithredol	15
Gweithgareddau Eraill	15
Ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol	15
Cyflwyno Tystiolaeth i Gomisiwn Richard	16
Seminar Ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol	17
Papur i'r Pwyllgor Busnes ar Argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad 17 (Paragraff 8.10 o'r Adroddiad Terfynol)	17
Ymweld â Chlerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Christine Salmon	17
Offerynnau Statudol a Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau	18
LC530 Rheoliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (Cynnyrch o Darddiad Anifeiliaid o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif.1798 (W173)	18
LC531 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002, 2002 Rhif. 2171 (W218)	18
LC532 Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Diwygio) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2060 (W.209)	18
LC533 Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2022 (W.206)	18

LC534	Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002, OS 2002 Rhif 2061 (W.210)	19
LC535	Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2024 (W.208) (C.65)	19
LC536	Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2023 (W.207)	19
LC537	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2127 (W.214)	20
LC538	Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2199 (W.219)	20
LC539	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2258 (W.222)	20
LC540	Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2295 (W.224)	20
LC541	Rheoliadau Diogelu Dwr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2297 (W. 226)	21
LC542	Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2296 (W.225)	21
LC543	Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 Rhif 2302 (W.227)	21
LC544	Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2304 (W.229)	21
LC545	Gorchymyn Moch (Cofnodion, Nodi a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2303 (W.228)	22
LC546	Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002	22
LC547	Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002	22
LC548	Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002	22
LC549	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau ac ati) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002	23
LC550	Rheoliadau Ffioedd Ymholiadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002	23
LC551	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002	23

LC552	Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2002	23
LC553	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002	24
LC554	Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2002	24
LC555	Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002	24
LC556	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002	24
LC557	Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002	24
LC558	Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002	25
LC559	Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003	25
LC560	Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002	25
LC561	Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002	25
LC562	Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) ac Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002	25
LC563	Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002	26
LC564	Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisoës) (Cymru) 2002	26
LC565	Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) (Rhif 2) 2002	26
LC566	Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002	26
LC567	Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cymru) 2002	26
LC568	Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2002	26
LC569	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002	27
LC570	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002	27
LC571	Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002	27

LC572	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002	27
LC573	Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) (Rhif 2) 2002	28
LC574	Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002	28
LC575	Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002	28
LC576	Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Cymru) 2002	29
LC577	Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002	29
LC578	Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002	29
LC579	Rheoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Byrddio (Pwerau a Ffioedd)(Cymru) 2002	29
LC580	Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003	29
LC581	Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002	30
LC582	Gorchymyn Rhestri Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002	30
LC583	Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002	30
LC584	Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002	30
LC585	Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002	31
LC586	Gorchymyn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (Awdurdodaeth) 2002	31
LC587	Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003	31
LC588	Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003	31
LC589	Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) 2003	32
LC590	Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2003	32
LC591	Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003	32

LC592	Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru)	33
LC593	Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2002	33
LC594	Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003	33
LC595	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003	34
LC596	Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003	34
LC597	Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio)(Cymru) 2003	34
LC598	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Taliadau Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2003	34
LC599	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003	34
LC600	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003	35
LC601	Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002 OS 2002/3157 (W.293)	35
LC602	Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002/3160 (W.295)	35
LC603	Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) Rheoliadau 2002	35
LC604	Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002	36
LC605	Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2003	36
LC606	Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003	36
LC607	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2002	36
LC608	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2003	36
LC608A	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2003	37

LC609	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003	37
LC610	Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2003	37
LC611	Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003	37
LC612	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003	38
LC613	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003	38
LC614	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003	38
LC615	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003	38
LC616	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003	39
LC617	Rheoliadau Premiwm Blynnyddol Defaid (Diwygio) (Cymru) 2003	39
LC618	Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003	39
LC619	Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru) 2003	39
LC620	Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2003	39
LC621	Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003	40
LC622	Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2003	40
LC623	Gorchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2003	40
LC624	Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2003	40
LC625	Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003	40
LC626	Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003	41
LC627	Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003	41
LC628	Rheoliadau Addysg (Rhoi Gwybodaeth) (Cymru) 2003	41
LC629	Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003	41
LC630	Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003	41

LC631	Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003	42
LC632	Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003	42
LC633	Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003	42
LC634	Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003	42
LC635	Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2003	43
LC636	Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003	43
LC637	Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003	43
LC638	Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003	43
LC639	Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003	43
LC640	Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003	44
LC641	Rheoliadau Tenantiaeth Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003	44
LC642	Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003	44
LC643	Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003	44
LC644	Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru) 2003	44
LC645	Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003	45
LC646	Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2003	45
LC647	Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2003	45
LC648	Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003	45
LC649	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003	46
LC650	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003	46

LC651	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003	46
LC652	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003	46
LC653	Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003	46
LC654	Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003	47
LC655	Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003	47
LC656	Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003	47
LC657	Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003	47
LC658	Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003	48
LC659	Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2003	48
LC660	Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif. 5) (Cymru) 2003	48
LC661	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003	48
LC662	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003	49
LC663	Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003	49
LC664	Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003	49
LC665	Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003	49
LC666	Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003	49
LC667	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003	50
LC668	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003	50
LC669	Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003	50
LC670	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003	50
LC671	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003	51

LC672	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2003/2004) (Cymru) 2003	51
LC673	Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003	51
LC674	Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003	51
LC675	Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003	51
LC676	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) (Diwygio) 2003	52
LC677	Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003	52
LC678	Rheoliadau Deddf Trwyddedu Swau 1981 (Diwygio) (Cymru) 2003	52
LC679	Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003	52
LC680	Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Cymru) 2003	52
LC681	Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfrenio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003	53
	Adroddiad i'r Aelodau	53
	Crynodeb o'r Materion a godwyd gan y Pwyllgor yn eu Hadroddiadau	53

Y CYNULLIAD CYNTAF: Y PEDWERYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL

2002 - 2003

□□□□

CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU 2002-2003

DADANSODDIAD O'R BEDWAREDD FLWYDDYN:

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: Rheol Sefydlog 11.5

Mae Rheol Sefydlog 11.5 yn nodi ar ba seiliau y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad
- mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau
- mae wedi ei heithrio rhag ei herio yn y llysoedd
- mae'n ymddangos bod iddi effaith ôl-weithredol anawdurdodedig
- mae angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu ei hystyr
- mae'n ymddangos bod y drafftio'n wallus
- mae'n methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill
- mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 11.4, hysbysu Gweinidiog perthnasol y Cynulliad am y bwriad hwn a'i wahodd ef neu hi i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.


Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (Medi 2002 – Mawrth 2003) ystyriodd y Pwyllgor 153 darn o ddeddfwriaeth.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar 37 achlysur gwahanol. Roedd modd cywiro'r gwallau hynny yn y mwyafrif o achosion drwy Femorandwm o Gywiriadau: 25 allan o gyfanswm o 37. Mewn un achos roedd modd cywiro'r gwallau yn y fersiwn brintiedig.

Dyma'r rhesymau pam y gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Offerynnau Statudol:

- ymddengys bod y drafftio'n wallus - 20 achos
- ymddengys bod y drafftio'n wallus a bod angen eglurhad pellach ar y ffurf neu'r ystyr - 11 achos
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg - 3 achos
- mae angen eglurhad pellach ar y ffurf neu'r ystyr - 1 achos
- ymddengys bod y drafftio'n wallus a chafwyd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg - 1 achos
- ymddengys bod y drafftio'n wallus; angen eglurhad pellach ar y ffurf neu'r ystyr; amheuaeth bod y ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad a bod pwerau'n cael eu harfer mewn modd anarferol neu annisgwyl – 1 achos

Dosbarthiad y Problemau a Nodwyd gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 11.5 (Siart Bar)



Cyfres 1 - Mae'n ymddangos bod y drafftio'n wallus

Cyfres 2 - Mae'n ymddangos bod y drafftio'n wallus ac angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu'i hystyr

Cyfres 3 - Mae anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg

Cyfres 4 - Mae angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu ei hystyr

Cyfres 5 - Mae'n ymddangos bod y drafftio'n wallus ac mae anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg

Cyfres 6 – Mae'n ymddangos bod y drafftio'n wallus; angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu'i hystyr; amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad ac a yw pwerau'n cael eu harfer mewn modd anarferol neu annisgwyl

Sylwadau

Heblaw am adrodd yn ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad wedi cynnwys sylwadau ar fân ddiffygion.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at 39 o achosion lle gellid fod wedi symleiddio'r drafftio i helpu'r darllenydd. Awgrymwyd bod angen bod yn fwy eglur mewn 28 o achosion. Roedd 27 achos o gamgymeriadau teipograffyddol. Roedd 4 achos o gamgymeriadau gramadegol.

Mae'r mwyafrif helaeth o Orchmynion a gyflwynwyd wedi dilyn awgrym y Pwyllgor i ddileu'r defnydd o iaith sy'n cyfeirio at un rhyw penodol. Dim ond 3 Gorchymyn oedd yn cynnwys achosion o iaith sy'n cyfeirio at un rhyw yn benodol.

Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynhyrchu deddfwriaeth ddwyieithog heblaw pan fo hynny'n amhriodol neu pan nad yw'n rhesymol ymarferol. Drafftwyd 151 o'r Gorchymynion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ddwyieithog, ac o blith y rhain dim ond 1 oedd yn cynnwys anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.


Ar hyn o bryd o'r cyfanswm o 153 o orchmynion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod o Fedi 2002 i Mawrth 2003, mae 152 ar gael fel fersiynau printiedig terfynol. O'r rhain, roedd 39 fersiwn terfynol wedi cymryd holl awgrymiadau'r Pwyllgor i ystyriaeth; 12 fersiwn terfynol wedi cynnwys rhai o'r awgrymiadau; roedd 22 fersiwn terfynol heb gynnwys yr awgrymiadau; ystyriwyd pwyntiau'r Pwyllgor a bwriedir eu diwygio trwy gael Gorchymyn diwygio mewn 9 achos. Nid oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â 70 o Orchmynion. Ar yr adeg yr ysgrifennwyd y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol hwn, nid yw fersiynau printiedig terfynol wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn ar gyfer 1 Gorchymyn. Offerynnau Statudol a oedd yn dilyn y weithdrefn Weithredol oedd canran gymharol uchel o'r fersiynau printiedig nad oedd wedi cynnwys awgrymiadau'r Pwyllgor (h.y. 22 fersiwn terfynol) (mae'r Offerynnau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn i'r Pwyllgor eu gweld).

Mewn sawl achos roedd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi gwneud sylwadau ar ddrafft cynnar o'r ddeddfwriaeth. Canlyniad hyn oedd gwneud sawl copi drafft a chywiro nifer sylweddol o bwyntiau tebyg cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor yn ffurfiol

Gweithdrefnau Gwneud Deddfwriaeth

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy Weithdrefn Safonol, Gweithdrefn Weithredol, Gweithdrefn Gyflym neu Weithdrefn Estynedig. O'r cyfanswm o 153 o Orchmynion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod o Fedi 2002 i Mawrth 2003, proseswyd 50 o achosion trwy Weithdrefn Safonol; 53 o achosion— trwy Weithdrefn Weithredol a 50 o achosion – trwy Weithdrefn Gyflym. Ni wnaed unrhyw ddeddfwriaeth drwy'r Weithdrefn Estynedig.

Dosbarthiad y Gweithdrefnau a Ddefnyddir i Wneud Deddfwriaeth (Siart Cylch)



MATERION GWEITHREDOL

Cyfarfu'r Pwyllgor Deddfau bron iawn bob wythnos ac felly roedd yn gweithio i derfynau amser tynn iawn. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw broblemau â'r ochr weithredol. Rhoddwyd pob gorchymyn drafft ac adroddiad cynghorwyr cyfreithiol ar agendâu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnal yn fuan ar ôl i'r gorchmynion drafft gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn anelu at ddarparu'r holl bapurau i'r Aelodau ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Ar ôl pob cyfarfod mae'r Ysgrifenyddiaeth yn sicrhau y caiff Adroddiadau'r Pwyllgor eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd, ar yr un diwrnod yn aml. Roedd yr adroddiadau a'r cofnodion yn cael eu gosod ar y fewnwyd a'r rhyngwyd o fewn dau ddiwrnod gwaith. Cafodd holl lythyrau'r Cadeirydd o dan Rh.S 11.4 eu hanfon o fewn dau ddiwrnod gwaith hefyd.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

YMWELD Â SWYDDFA'R CWNSLER CYFFREDINOL

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 9.07.02 gofynnwyd cwestiwn cyffredinol ynghylch y weithdrefn ar gyfer drafftio offerynnau statudol, o gofio bod camgymeriadau teipograffyddol yn parhau i fod mewn gorchmynion sydd wedi'u cyflwyno. Penderfynodd y Pwyllgor ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i ddeall y broses o ddrafftio deddfwriaeth yn well.

Felly, ar 5.11.02 aeth Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Mick Bates AC, Aelodau'r Pwyllgor, Rosemary Butler AC, Ann Jones AC, Dai Lloyd AC, Owen John Thomas AC a swyddogion y Pwyllgor i ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG) a thrafod â'r Cwnsler

Cyffredinol Cynorthwyol, Ms Angela Parkes, Uwch Gwnsler y Cynulliad Mr Gwyn Griffiths, Cwnsler y Cynulliad Ms Catrin Huws a'r Uwch Swyddog Gweithredol Mr Alun Jenkins.

Yn ystod y drafodaeth soniwyd bod OCG yn croesawu beirniadaeth adeiladol. Soniwyd yn gyffredinol am waith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac eglurwyd rôl yr Uned Rheoli Deddfwriaeth. Eglurwyd ei bod hi'n anodd i gyfreithwyr greu deddfwriaeth yn gyflym i gwrdd â therfynau amser tynn a sicrhau, ar yr un pryd, bod Offerynnau Statudol yn cael eu paratoi'n hollol drylwyr. Nid oedd amser bob tro i ddangos deddfwriaeth ddrafft o flaen llaw i Gynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau. Felly, roedd camgymeriadau teipograffyddol a chamgymeriadau tebyg yn dal i syrthio drwy'r rhwyd weithiau.

Briffiwyd y Pwyllgor ar y broses o ddrafftio deddfwriaeth ar y cyd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Roedd y broses hon yn golygu bod dau destun gwreiddiol i'w cael yn hytrach nag un sy'n cael ei gyfieithu i iaith arall. Nodwyd bod y broses o ddrafftio ar y cyd yn hirach a bod angen dau gyfreithiwr i weithio ar un testun. Roedd y ddeddfwriaeth honno, fodd bynnag, yn cael ei pharatoi'n drylwyr iawn a dylai hynny olygu llai o gamgymeriadau. Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor Deddfau sylw at y ffaith mai nod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y pen draw yw drafftio ei holl ddeddfwriaethau ar y cyd. Ar ran y Pwyllgor canmolodd waith OCG ar gyd-ddrafftio Offerynnau Statudol.

CYFLWYNIAD I GOMISIWN RICHARD

Ar 6.12.02 ymddangosodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Mick Bates AC, a swyddogion y Pwyllgor gerbron Comisiwn yr Arglwydd Richard i gyflwyno tystiolaeth. Dyma rai materion a gododd yn y cyflwyniad:

- A yw Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu'r pwerau sydd eu hangen ar y Cynulliad i alluogi iddo weithredu'n effeithiol a bodloni disgwiliadau pobl Cymru: pwysleisiwyd bod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng Cynulliad yng Nghymru sy'n gyfrifol am weithredu polisi heb ddylanwadu arno a Senedd yn Lloegr sy'n gyfrifol am ddeddfu ar bolisiau nad yw'n gyfrifol am eu gweithredu;
- Nid yw'r system bresennol yn llwyddo i gynnwys Aelodau'r Cynulliad, neu garfanau sydd â diddordeb ehangach, yn y gwaith o lunio cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn San Steffan, neu lunio polisiau sy'n sail i gynigion;
- Mynegwyd siom nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i geisiadau am ddeddfwriaeth, a nodi mai dim ond un Ddeddf ar gyfer Cymru Gyfan a fu ers datganoli ac un Mesur syddyn yr arfaeth ar gyfer y sesiwn Seneddol nesaf;
- Nodwyd pwysigrwydd rhoi pwerau deddfwriaeth sylfaenol i'r Cynulliad o fewn Cymru er mwyn iddo datblygu ei allu gwleidyddol a chyfreithiol i roi mynegiant llawn i ofynion polisiau Cymru: er enghraifft gellir defnyddio pwerau deddfwriaeth sylfaenol mewn Deddfwriaeth i Gymru mewn meysydd fel lechyd (Gofal Personol am Ddim); Addysg (er mwyn addasu ffioedd dysgu) a lechyd Anifeiliaid.

O ran effaith bosibl y pwerau ychwanegol, nododd y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- Pe bai'r Cynulliad yn cael pwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol a bod y strwythur presennol yn cael ei gwahanu'n Ddeddfwrfa a Gweithrediaeth, y Weithrediaeth fyddai'n gyfrifol am wneud is-ddeddfwriaeth pe mabwysiedir yr un patrwm ag sydd yn San Steffan a'r Alban. Byddai'r Pwyllgor yn adrodd i'r Ddeddfwrfa ynghylch y camau y mae'r Weithrediaeth yn eu cymryd;
- Mae posibilrwydd y byddai gan y Pwyllgor Deddfau swyddogaeth ychwanegol o adrodd ar is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig;
- Mae posibilrwydd y byddai'r Pwyllgor Deddfau yn chwarae rhan yn y rôl o gynghori'r Ddeddfwrfa ar ddeddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n cael ei chyflwyno gan y Ddeddfwrfa.

SEMINAR AR DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL

Ar 22.01.03 cynhaliodd Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol seminar ar y cyd ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd y seminar wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, eu staff ymchwil a gweision sifil. Roedd llawer iawn o bobl yn bresennol yn y seminar ac roeddent yn dweud eu bod wedi dysgu llawer a bod y taflenni a gafodd eu dosbarthu'n ddefnyddiol iawn.

PAPUR AR GYFER Y PWYLLGOR BUSNES AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD O WEITHDREFNAU'R CYNULLIAD (PARAGRAFF 8.10 YR ADRODDIAD TERFYNOL)

Ar 28.01.03 yn y Cyfarfod Llawn tynnodd y Llywydd sylw at un o argymhellion y Pwyllgor Deddfau i'r Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad ynghylch ei rôl o sicrhau bod pwyllgorau'n cydymffurfio'n llwyr â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth (er enghraifft mewn materion fel arfarniad rheoliadol, asesiad o'r effaith amgylcheddol ac ymgynghori â busnesau). Yn dilyn hyn, gofynnodd y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor Deddfau gyflwyno ei sylwadau ar weithredu'r argymhelliad hwn. Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd unrhyw ddatblygiad wedi bod ar y mater hwn ac ar 11.02.03 anfonwyd llythyr at y Dirprwy Lywydd a chopi at y Llywydd. Gan nad oedd y Pwyllgor wedi cael ateb, codwyd y mater eto yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad ar 10.06.03 ac ysgrifennwyd llythyr arall at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes, Jenny Randerson a chopi at y Llywydd.

YMWELIAD CLERC Y PWYLLGOR AR BWERAU DIRPRWYEDIG A DIWYGIO RHEOLEIDDIO, CHRISTINE SALMON

Ar 18.03.03 daeth Clerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Christine Salmon, i gyfarfod y Pwyllgor Deddfau a rhoi cyflwyniad byr ar rôl ei phwyllgor. Yna, cafwyd cyflwyniad gan Gynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor, John Turnbull, ar rôl y Pwyllgor Deddfau. Ar ôl y cyflwyniad cafwyd trafodaeth.

Offerynnau Statudol a Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau

LC530 Rheoliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (Cynnyrch o Darddiad Anifeiliaid o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif.1798 (W173)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC531 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002, 2002 Rhif. 2171 (W218)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen mwy o eglurder o ran y byddai wedi bod yn well pe bai'r holl ddarpariaethau wedi eu gwneud fel addasiadau ar eu pennau eu hunain gan adael testun y prif reoliadau yn gyflawn; yr oedd gwallau drafftio yn y diffiniad o "gynllun chwarae haf" ym mharagraffau (B) – (D) o reoliad 4 (3)(c)(iii) a pharagraff (7) (d) o reoliad 16; yr oedd angen mwy o eglurhad ynghylch paragraff (4)(b) o reoliad 16(5) a dylai'r troednodyn i'r Rhaglith gyfeirio at adran 120(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i ddangos sut yr oedd y pwerau galluogi wedi'u breinio i'r Cynulliad.

LC532 Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Diwygio) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2060 (W.209)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC 533 Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2022 (W.206)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor gamgymeriad teipograffyddol yn y testun Cymraeg o'r Nodyn Esboniadol (Dylai "1992" fod yn "1965").

LC534 Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002, OS 2002 Rhif 2061 (W.210)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad pellach o Baragraff (a) o'r nodyn esboniadol a bod camgymeriad teipograffyddol ym mharagraff (b) testun Saesneg y nodyn esboniadol (dylai "article 3(3)(b)" ddarllen fel "article 3(2)(b)").

LC535 Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2024 (W.208) (C.65)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad pellach wrth enwi'r pwerau a pharagraff agoriadol y nodyn esboniadol; yr oedd gwallau gramadegol/teipograffyddol yn nhestun Cymraeg y nodyn esboniadol. Nodwyd hefyd bod dau gamgymeriad yn y gorchymyn copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor wedi'u cywiro yn y fersiwn cyhoeddedig (hy. dyddiad anghywir yn y nodyn esboniadol a blwyddyn anghywir yn y rhaglith).

LC536 Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2023 (W.207)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5: yr oedd anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran y ddarpariaeth enwi yn Erthygl 1(1) a'r pennawd ar dudalen 2; yr oedd camgymeriad drafftio yn Erthygl 3(4) (dylai "regulation" ddarllen fel "article" a dylai "rheoliad hwn" ddarllen fel "erthygl hon"). O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor un camgymeriad teipograffyddol yn nhestun Cymraeg y nodyn esboniadol (dylai "1992" ddarllen fel "1995") ac un camgymeriad drafftio yn y cyfeiriad at adran 154(6) (y gair "adran" wedi'i hepgor).

LC537 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2127 (W.214)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor fod anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg (nid oedd y geiriad "in accordance with regulation 13" sy'n ymddangos yn y testun Saesneg yn ymddangos yn y testun Cymraeg) ac yr oedd angen eglurhad o baragraff 4 o Atodlen 3.

LC538 Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2199 (W.219)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod camgymeriadau drafftio bach ym mhennawd erthygl 1 a pharagraff cyntaf testun Cymraeg y nodyn esboniadol a bod un camgymeriad teipograffyddol yn nhroednodyn (ch) o'r testun Cymraeg.

LC539 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2258 (W.222)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor gamgymeriad teipograffyddol ym mharagraff 11(b) yn Atodlen 1 (dylai "for use" ddarllen fel "the use").

LC540 Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2295 (W.224)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod camgymeriadau drafftio yn y teitl fel y'i argraffwyd ar dudalen 1 a'r pennawd yn y geiriad mewn cromfachau yn union o dan y nodyn esboniadol.

LC541 Rheoliadau Diogelu Dwr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2297 (W. 226)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad pellach o ran y cyfeiriad at y 'prif swyddog' yn rheoliad 3C(3)(c); yr oedd un camgymeriad teipograffyddol yn rheoliad 1(3) yn y testun Saesneg (yr oedd "Agricultural" wedi'i hepgor o deitl rheoliadau 1996) a nodwyd rhai pwyntiau teipograffyddol a gramadegol bach yn y testun Cymraeg.

LC542 Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci)
(Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2296 (W.225)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC543 Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro)
(Cymru) (Rhif 2) 2002 Rhif 2302 (W.227)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor un pwynt y dylid adrodd amdano o dan Reol Sefydlog 11.5: yr oedd anghysondeb rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg yn rheoliad 5(2)(f)/(dd). O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor o ganlyniad i'r anghysondeb rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg dylai gorchymyn diwygio gael ei wneud. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai wedi bod yn well, felly, pe bai pennawd a geiriad agoriadol y ddogfen hefyd mewn fformat dwyieithog tudalen lawn (yn hytrach na fformat dwy golofn).

LC544 Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2)
2002, OS 2002 Rhif 2304 (W.229)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5: bod angen eglurhad pellach o Baragraff (b) o erthygl 4 ac Erthygl 6(4); bod Erthygl 9(1) wedi ei ddrafftio'n ddiffygiol. Yr oedd y pwyntiau a wnaed yn gymwys yn yr un modd i'r testun Cymraeg. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad pellach o'r pwerau a enwyd; tynnwyd rhai pwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb at sylw'r rhai sy'n gyfrifol am brosesu'r gorchymyn hwn er mwyn iddynt gael eu cywiro yn y fersiwn cyhoeddedig.

LC545 Gorchymyn Moch (Cofnodion, Nodi a Symud) (Mesurau Interim)
(Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2303 (W.228)

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor un pwynt y dylid adrodd amdano o dan Reol Sefydlog 11.5: yr oedd anghysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn erthygl 3(1) lle mae'r testun Saesneg yn defnyddio'r gair "keeper" a ddiffiniwyd yn erthygl 2(1) ond nid oedd y testun Cymraeg yn defnyddio'r gair diffiniedig "ceidwad". O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad pellach o'r ffurflenni rhagnodedig yn Atodlenni 1 a 2.

LC546 Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor un pwynt y dylid adrodd amdano o dan Reol Sefydlog 11.5: yr oedd gwall drafftio yn Reoliad 2(2)(c) sef y dylai is-baragraff (c) fod wedi ei ddileu. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor rai pwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb.

LC547 Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor un pwynt y dylid adrodd amdano o dan Reol Sefydlog 11.5: yr oedd diffygion drafftio yn y diwygiadau i Erthygl 6(3) yn Erthygl 2(8) yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Am mai gwall gweinyddol yn unig ydoedd, ystyriwyd ei bod yn briodol i'r paragraff dan sylw gael ei hepgor o'r gorchymyn argraffedig.

LC548 Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC549 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau ac ati) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 29 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC550 Rheoliadau Ffioedd Ymholiadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 29 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5

LC551 Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 29 Hydref 2002

Nododd y Pwyllgor dri phwynt y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12A

- Caiff Adran 31 o Ddeddf 1990 ei hychwanegu at y pwerau galluogi.
- Bydd y rhaglith yn cynnwys datganiad fod ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.
- Caiff y ddarpariaeth y mae rheoliad 11 yn ei mewnosod fel rheoliad 8B(3) ei hepgor.

LC552 Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 29 Hydref 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor nifer o gamgymeriadau teipograffyddol a chamgymeriadau cyffelyb y gellid eu cywiro yn y fersiwn argraffedig.

LC553 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC554 Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor un camgymeriad drafftio (yn y Nodyn Esboniadol dylai "yr Atodlen" ddarllen fel "Atodlen 1") ac yr oedd angen eglurhad ynghylch y trydydd paragraff (nid oedd yn gwbl eglur bod y gofynion hysbysu yn rheoliad 4 yn hytrach nag yn Atodlen 2).

LC555 Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC556 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan awgrymwyd addasiad drafftio a'i gymryd i ystyriaeth.

LC557 Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor rhai pwyntiau teipograffyddol.

LC558 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC559 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC560 Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002
(Cychwyn) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen un eglurhad pellach yn y nodyn esboniadol.

LC561 Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ay y Cyd a Lesddaliad 2002
(Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)
2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC562 Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) ac Adolygu
Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau nododd y Pwyllgor mân wallau clercaidd yn y pennawd a dylid eu cywiro yn y fersiwn argraffedig.

LC563 Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu
Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad o droednodyn (b) i'r rhaglith.

LC564 Rheoliadau Cynlluniau Parneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n
Bodoli Eisoes) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad pellach o droednodyn (a) i'r rhaglith.

LC565 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru)
(Rhif 2) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC566 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion
Canlyniadau) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad o'r rhaglith, y gellid ei gynnwys yn y Memorandwm Cywiriadau.

LC567 Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC568 Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru)
2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor rai pwyntiau teipograffyddol y gellid eu cywiro wrth argraffu.

LC569 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion
Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC570 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor rai pwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb y gellid eu cywiro wrth argraffu.

LC571 Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Tachwedd 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC572 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5 y byddai'n briodol eu cywiro fel cywiriadau argraffu: yr oedd angen eglurhad am yr is-baragraff newydd (e) yn Rheoliad 5(6)(iv); yr oedd gwallau drafftio yn Reoliad 7, er enghraifft, yr oedd rhif paragraff (1) wedi ei hepgor, ym mharagraff 2 yr oedd rhifau diangen, sef (i) a (ii) a geiriau diangen yn y ddarpariaeth agoriadol; dylai paragraffau (d) ac (e) fod yn (3) a (4) a dylent gyfeirio at Reoliad 5, dylai paragraffau (3) - (9) fod yn (5) - (11). O dan sylwadau nododd y Pwyllgor bod angen eglurhad pellach o'r Teitl, Rheoliad 1(2) a Reoliad 5(1); yr oedd gwallau drafftio yn is-baragraff (b) yn Reoliad 7.

LC573 Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Rhagfyr 2002

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5:

- Yr oedd amheuaeth a oedd y gorchymyn presennol o fewn pwerau'r Cynulliad (yr oedd angen eglurhad ynghylch dyddiad cychwyn yr Atodlenni oherwydd ymddengys eu bod eisoes wedi cychwyn ar ddyddiad cynharach);
- Yr oedd gwall drafftio wrth enwi pwerau;
- Yr oedd cynnwys erthygl 1(3) sy'n nodi mai i Gymru'n unig y mae'r Gorchymyn yn berthnasol, yn golygu defnyddio'r pŵer galluogi mewn modd anarferol neu annisgwyl.

LC574 Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5

LC575 Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor bod angen newid "Ionawr" ar ddechrau'r testun Saesneg i "January" yn y fersiwn argraffedig.

LC576 Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC577 Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y cynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a gafodd eu cywiro wedi hynny.

LC578 Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau, nododd y Pwyllgor y byddai o gymorth mawr i'r defnyddiwr yng Nghymru pe bai Atodlen 2A ar wahân yn cael ei mewnosod ar gyfer Cymru y tro nesaf y caiff Atodlen 2 ei diwygio.

LC579 Rheoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Byrddio (Pwerau a Ffioedd)(Cymru) 2002

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Rhagfyr 2002

Ni nododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau y dylid adrodd amdanynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

LC580 Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Rhagfyr 2002

